

Mae ein system cymorth cyfreithiol yn golofn sylfaenol ar gyfer mynediad at gyfiawnder. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i ddarparu cymorth cyfreithiol yn yr achosion hynny lle mae'r angen fwyaf. Yn wir, mae dros pumed o gyllideb y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn cael ei gwario ar gymorth cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr.

Mae'n bwysig bod gan bobl ffydd ym mhob rhan o'u system gyfiawnder. Mae'r cynllun cymorth cyfreithiol wedi'i ddylunio i sicrhau bod y rhai hynny sydd fwyaf bregus, ac sydd heb fynediad at unrhyw gymorth ariannol arall, yn cael cymorth. Mae'r egwyddorion hynny yn rai teg.

Bwriedir i'r trefniadau presennol ar gyfer cymorth cyfreithiol mewn cwestau adlewyrchu hyn. Mae'r cwest yn broses farnwrol ar wahân. Mae'n wrandawriad cyhoeddus a gynhelir i bennu pwy oedd yr ymadawedig, a sut, pryd a lle bu iddynt farw. Gall fod yn brofiad trawmatig i'r rhai sydd mewn profedigaeth, wrth glywed sut bu farw eu hanwyliaid a hefyd y rhwystrredigaeth wrth chwilio am atebion.

Fodd bynnag, mae'r chwiliad hwnnw i beth ddigwyddodd yn bwysig iawn er mwyn i'r rhai sydd mewn profedigaeth ddeall a gwneud synnwyr o'u colled ynghyd â sicrhau bod yr unigolyn/unigolion priodol yn eu cael yn atebol.

Dylid cynnal cwestau mewn ffordd lle mae teuluoedd yn teimlo'n hyderus y gallant:

- a. Ddeall amserlen a chwmpas yr achos;
- b. Cymryd rhan yn yr achos;
- c. Cael mynediad at gymorth cyfreithiol a chynrychiolaeth gyfreithiol os bydd angen; a
- d. Theimlo eu bod yn cael cefnogaeth briodol trwy gydol y broses.

Felly, mae cymorth cyfreithiol ar gael i deuluoedd sy'n ceisio cyngor cyfreithiol yn y cyfnod cyn y gwrandawriad cwest. Mae'r Llywodraeth hefyd yn cydnabod y bydd angen cynrychiolaeth gyfreithiol ar gyfer achos cwest mewn rhai amgylchiadau. Dyna pam ein bod wedi sicrhau bod arian ar gyfer cynrychiolaeth ar gael, lle bo'r angen, trwy'r cynllun Cyllid Achosion Eithriadol.

Yn ddiweddar, mae beirniadaeth wedi bod ynghylch argaeledd cymorth cyfreithiol ar gyfer cwestau. Mae adroddiadau wedi amlygu'r angen i archwilio'r ddarpariaeth cymorth cyfreithiol ar gyfer achosion marwolaeth yn y ddalfa a marwolaethau lle gall y wladwriaeth fod yn rhan ohono. Mae angen dealltwriaeth well o achosion lle mae gan y wladwriaeth gynrychiolaeth gyfreithiol i gyfarwyddo trafodaethau am gydraddoldeb o ran cynrychiolaeth ar gyfer unigolion mewn profedigaeth yn gyffredinol.

Yng ngoleuni hyn, mae'n amser adolygu'r system bresennol a cheisio barn unigolion am eu profiadau gyda'r system. Rydym eisiau sicrhau bod teuluoedd sydd mewn profedigaeth yn cael y gefnogaeth briodol ac yn gallu cymryd rhan yn y broses cwest.

Felly, mae'n bleser gennym lansio'r adolygiad hwn o'r ddarpariaeth cymorth cyfreithiol ar gyfer cwestau. Gobeithiwn y bydd yr Alwad am Dystiolaeth hwn yn darparu cyfle i'r rhai sydd wedi bod yn rhan o'r broses cwest i gael dweud eu dweud o ran sut i'w gwella.

Mae'r papur hwn yn amlinellu'r sefyllfa bresennol ac yn ceisio adnabod meysydd lle mae potensial i'w gwella neu lle mae modd gwneud mwy. Rhan o hyn yw edrych ar y

ddarpariaeth cymorth cyfreithiol ar gyfer cymorth cyfreithiol a chynrychiolaeth gyfreithiol mewn cwestau ar gyfer teuluoedd sydd mewn profedigaeth.

Gofynnir i ymatebwyr a oes angen gwneud mwy i sicrhau bod teuluoedd mewn profedigaeth yn gallu cymryd rhan yn llawn yn yr achosion hyn. Yn benodol, mae'r papur hwn yn anelu at ddeall yn well yr amgylchiadau pan all teuluoedd fod angen cynrychiolaeth gyfreithiol er mwyn galluogi proses cwest teg a p'un a oes angen newid y meini prawf cymhwysedd presennol ai peidio.

Bydd yr ymatebion a gesglir gan yr ymarfer yn cael eu defnyddio i ehangu'r sylfaen dystiolaeth a sicrhau bod gennym wybodaeth gadarn am y mathau o achosion cwest lle all teuluoedd fod angen rhagor o gefnogaeth.

Byddant yn cael eu defnyddio i sefydlu p'un a oes angen i deuluoedd gael cyngor a chynrychiolaeth mewn mathau penodol o gwestau i sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth briodol ac yn gallu cymryd rhan yn llawn yn ystod yr achos. Byddant hefyd yn cael eu defnyddio mewn ffordd fwy cyffredinol i sicrhau bod pobl mewn profedigaeth yn cael cefnogaeth ddigonol trwy gydol y broses cwest.

Unwaith rydym wedi sicrhau rhagor o dystiolaeth, byddwn wedyn yn ystyried newidiadau posib i'n polisïau presennol. Bydd unrhyw newidiadau arfaethedig yna'n cael eu cyflwyno mewn ymgynghoriad cyhoeddus, a bydd aelodau o'r cyhoedd yn cael eu gwahodd i ymateb i unrhyw gynigion.

Gellir gwneud cais am fersiwn Cymraeg o'r papur Galwad am Dystiolaeth yn ei gyfanrwydd trwy anfon neges e-bost i [inquestreview@justice.gov.uk](mailto:inquestreview@justice.gov.uk).